Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Penalltau
# Heol Cwm Calon
# Penallta
# Ystrad Mynach
# CF82 6AP

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gymraeg Penalltau

Ysgol gynradd Gymraeg yw Ysgol Penalltau sydd yng nghanol ystad Cwm Calon, ger Ystrad Mynach yn Sir Caerffili. Mae 217 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 30 oed meithrin rhan amser. Fe'u rhennir yn 8 dosbarth, gan gynnwys 2 ddosbarth oed cymysg.

Tua 16% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r canran cenedlaethol, sy'n 19%. Mae ychydig o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae'r ysgol wedi adnabod 17% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn eto yn is na'r canran cenedlaethol, sy'n 21%. Ychydig iawn o ddisgyblion sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2009 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Chwefror 2011. Hwn yw'r arolygiad cyntaf ers i'r ysgol gyrraedd ei llawn dwf.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae llais a lles disgyblion yn nodweddion cryf iawn o waith Ysgol Gymraeg Penalltau. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn arbennig o dda ac yn dangos cwrteisi a pharch gwirioneddol at ei gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd yn eu dysgu sydd o leiaf yn dda o'u mannau cychwyn. Mae ganddynt falchder yn yr iaith Gymraeg ac maent yn siarad yn hyderus a chyda cywirdeb. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg, gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol ar draws y cwricwlwm. Mae'r staff yn darparu cwricwlwm ysgogol a symbylus sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau amgylchedd dysgu diogel lle mae'r disgyblion yn teimlo'n hyderus i wneud camgymeriadau ac i ddysgu oddi wrthynt. Mae gan arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol gyda ffocws clir ar sicrhau bod disgyblion yn gwneud y cynnydd gorau posibl ac yn cyrraedd safonau uchel.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Lledaenu arferion gorau'r addysgu ar draws yr ysgol

A2 Cynllunio'n fwriadus i ddatblygu medrau disgyblion yn yr amgylchedd awyr agored

A3 Mireinio'r cynllun datblygu ysgol i ganolbwyntio ar y prif flaenoriaethau gan sicrhau eu bod yn ddigon miniog i alluogi arweinwyr i fesur effaith y gweithredu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Ar fynediad i'r ysgol, mae gan fwyafrif y disgyblion fedrau isel o ystyried eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yno, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd yn eu dysgu sydd o leiaf yn dda o'u mannau cychwyn. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at gyrraedd eu targedau personol. Mae'r rhan fwyaf yn datblygu medrau meddwl o safon uchel, er enghraifft wrth drafod testun fel gwisg ysgol, ac yn ystyried ac uniaethu â gwahanol safbwyntiau yn ddeallus.

Er bod llawer o ddisgyblion yn ymuno â'r ysgol heb y gallu i siarad Cymraeg, maent yn caffael yr iaith yn gynnar iawn. Wrth iddynt symud drwy'r cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r iaith yn hyderus wrth drafod ac esbonio'u gwaith ac wrth weithio gyda'u cyfoedion. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau llafaredd yn gadarn yn y ddwy iaith. Maent yn defnyddio geirfa sy'n berthnasol i'r pwnc yn effeithiol, er enghraifft geirfa rifedd a gwyddonol. Mae safon a chywirdeb yr iaith Gymraeg yn gryfder amlwg yn yr ysgol, gyda'r rhan fwyaf yn meddwl yn ofalus am y gair Cymraeg wrth siarad yn hytrach na throi i'r Saesneg.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol yn effeithiol ac yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus i adeiladu geiriau anghyfarwydd. Maent yn defnyddio medrau darllen cynnar yn gadarn wrth ddilyn a thrafod stori yn y dosbarth derbyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae llawer yn darllen yn rhugl a chyda mynegiant clir. Maent yn defnyddio geiriadur a thesawrws yn effeithiol i chwilio am ystyr a chyfystyr geiriau. Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fedrus yn y ddwy iaith ar draws cyfnod allweddol 2. Maent yn defnyddio'u medrau yn effeithiol ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am anifeiliaid o Affrica.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol i wahanol bwrpasau yn y Gymraeg, er enghraifft wrth greu dyddiadur o safbwynt cymeriad sy'n byw mewn castell. Maent yn trefnu eu gwaith yn synhwyrol ac yn amrywio brawddegau i wneud eu gwaith yn ddiddorol i'r darllenydd. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gynyddol yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod eang o ffurfiau ysgrifennu. Wrth ysgrifennu, maent yn dewis geirfa ddiddorol ac yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r gynulleidfa, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr perswâd yn dadlau o blaid rhoi organau corff ar ôl marwolaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhif, gan adeiladu ar eu dysgu blaenorol yn llwyddiannus. Maent yn mesur gwrthrychau gan ddefnyddio unedau safonau yn y cyfnod sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, maent yn mesur siapiau yn ddeallus i gyfrifo'u harwynebedd. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u medrau'n gadarn ar draws y cwricwlwm. Enghreifftiau effeithiol o hyn yw'r ffyrdd y maent yn penderfynu ar faint o gynhwysion sydd eu hangen i wneud cawl blasus yn y cyfnod sylfaen a chymharu taldra athletwyr gydag amser rhedeg i weld os oes cysylltiad rhyngddyn nhw yng nghyfnod allweddol 2.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n gadarn. Maent yn defnyddio pecynnau arlunio yn hyderus wrth greu patrymau.

Erbyn blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn mewnbynnu data syml i daenlen i greu graff gyda'r wybodaeth. Mae'r rhan fwyaf yn cadw eu gwaith yn llwyddiannus gan roi enw ffeil priodol iddo. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn parhau i wneud cynnydd graddol ar draws cyfnod allweddol 2. Maent yn defnyddio pecynnau prosesu geiriau yn llwyddiannus i gyflwyno'u gwaith. Maent yn creu fformiwla syml i gyfrifo cyfanswm yr arian a dderbyniwyd yn eu caffi, er enghraifft. Mae gan bron pob disgybl ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel wrth ddefnyddio'r we.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cymhwyso'u holl fedrau yn llwyddiannus wrth weithio ar brosiectau penodol. Er enghraifft, yn ystod prosiectau mentergarwch, maent yn defnyddio llythrennedd i drafod a chyflwyno syniadau, medrau meddwl i benderfynu ar y cynnyrch gorau i'w greu a medrau rhif i gyfrifo cost offer a'r elw. Mae hyn yn galluogi disgyblion i gymhwyso'u medrau yn effeithiol mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn siarad yn hyderus a chyda balchder am eu hysgol. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd eang mae'r staff yn darparu iddynt fynegi barn am waith yr ysgol drwy holiaduron, wrth arsylwi gwersi ac yn ystod gweithgareddau fel 'Paned â'r Pennaeth'. Trwy wneud hyn, maent yn cyfrannu'n helaeth at benderfyniadau strategol, fel newid y pwyslais cwricwlaidd a mynd i'r afael â'r diffyg cyfleoedd i wneud celf, er enghraifft. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael llais cryf ar eu dysgu eu hunain trwy gynnig syniadau ar ddechrau pob thema a dilyn eu trywyddau dysgu eu hunain. Ar ôl gweld newyddion am gorwyntoedd yn America, er enghraifft, mae disgyblion yn awyddus i ddysgu mwy am beth sy'n digwydd ac mae athrawon yn addasu'u cynllunio'n effeithiol i gynnwys eu syniadau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol a'r eco gyngor yn grwpiau brwdfrydig o ddisgyblion ac mae eu syniadau hwythau hefyd yn cael lle amlwg ym mywyd yr ysgol. Maent yn trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer nifer o elusennau a chaiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth am anghenion eraill. Mae llawer o'r disgyblion yn cyfrannu'n helaeth yn y gymuned ac yn cymryd rhan flaenllaw a phwysig mewn digwyddiadau cymdeithasol a chystadlaethau yn lleol, fel canu carolau yn yr archfarchnad leol a Ffair Nadolig Menter Caerffili.

Mae cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o bwyllgorau plant fel y Pwyllgor Bwyd a Ffitrwydd a Phwyllgor Y Dreigiau yn cyfrannu'n effeithiol at ddealltwriaeth bron pob un o wahanol agweddau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb iddynt arwain agweddau pwysig ar fywyd yr ysgol ac i ddatblygu eu medrau'n fwriadus, er enghraifft trwy drefnu Wythnos Ffitrwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol o fewn yr ysgol a thu hwnt, er enghraifft y clybiau coginio, chwaraeon a dawnsio gwerin. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at ddatblygu eu dealltwriaeth am bwysigrwydd bod yn ffit a byw yn iach. Mae gan bron pob disgybl hefyd ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd yfed dŵr a bwyta'n iach.

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel o fewn yr ethos gofalgar, cynhwysol a chynhaliol sy'n bodoli yno. Maent yn hapus yn yr ysgol ac yn awyddus i fynychu bob dydd. Mae ymddygiad bron pob disgybl yn arbennig o dda yn y dosbarthiadau ac o gwmpas yr ysgol. Maent yn gwrtais a

chroesawgar tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr. Mae hyn yn cyfrannu'n sylweddol at greu awyrgylch ddysgu effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill yn ystod amser egwyl a chinio.

Yn y gwersi, mae bron pob disgybl yn frwdfrydig ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Maent yn cefnogi dysgu ei gilydd yn dda iawn ac yn datblygu i fod yn ddysgwyr hyderus ac annibynnol. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth gadarn o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith. Defnyddiant y cymorth gweledol, fel eu targedau personol ac arddangosfa'r 'twll dysgu', er mwyn datblygu a chymhwyso eu medrau mewn gwahanol sefyllfaoedd yn effeithiol. Mae bron pob disgybl yn hyderus yn eu medrau dysgu gan roi cynnig ar ystod o weithgareddau heb ofni methu.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda. Mae elfennau rhagorol mewn lleiafrif o ddosbarthiadau. Mae gan ran fwyaf yr athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn teilwra gwaith yn llwyddiannus ar gyfer disgyblion o bob gallu. Maent yn manteisio ar gyfleoedd rheolaidd i herio disgyblion wrth holi'n fedrus a'u hannog i feddwl. Un o gryfderau'r addysgu yw'r ffordd y mae athrawon a chynorthwywyr yn creu awyrgylch dysgu diogel i ddisgyblion. Trwy'r defnyddio'r 'twll dysgu' yn feistrolgar a'u gofal tyner dros y disgyblion, mae'r staff yn darparu cyfleoedd effeithiol iddynt feithrin medrau i oresgyn heriau yn eu dysgu a deall ei fod yn iawn i wneud camgymeriadau. Yn gyffredinol, mae staff yn fodelau iaith da ac yn cael effaith gadarnhaol ar gywirdeb a safonau uchel iaith disgyblion. Yn yr ychydig iawn o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau cyflymder addas i'w gwersi. Mae hyn yn llesteirio gallu disgyblion rhag gwneud y cynnydd gorau posibl.

Mae athrawon yn defnyddio gweithdrefnau asesu yn llwyddiannus wrth roi adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion. Mae ymateb ysgrifenedig i waith disgyblion yn syml ond yn effeithiol iawn. Mae'n rhoi arweiniad clir i ddisgyblion ar beth sy'n dda yn eu gwaith a beth sydd angen ei wella. Mae athrawon yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr a synhwyrol i ddisgyblion wella eu medrau a chynnwys gwaith wrth ailddrafftio agweddau penodol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn trafod yn hyderus sut maent yn gwella'u gwaith ac yn dangos y cynnydd y maent wedi ei wneud o ganlyniad i'r adborth. Darperir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion asesu gwaith ei gilydd a gwaith eu cyfoedion drwy weithdrefnau fel 'Bydis Marcio'.

Mae'r athrawon yn darparu cwricwlwm diddorol a symbylus sy'n ennyn diddordeb bron pob disgybl yn llwyddiannus. Mae cwricwlwm eang a chyfoes sy'n seiliedig ar themâu ac ystod eang o brofiadau dysgu byw yn datblygu medrau disgyblion a'u hawydd i ddysgu yn effeithiol. Gwneir defnydd gwerthfawr o ymwelwyr ac ymweliadau addysgol fel yr ymweliad ag Archif Morgannwg wrth astudio'r ardal leol, i gyfoethogi'r cwricwlwm ac i ddatblygu medrau disgyblion.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol a threfnus i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh disgyblion ar draws y cwricwlwm. Maent yn sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd i atgyfnerthu eu medrau mewn ystod eang o bynciau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn cynllunio'n effeithiol iawn i sicrhau bod disgyblion yn gwneud penderfyniadau ynglŷn â'u dysgu ac yn datblygu

ystod eang o fedrau o fewn prosiectau arbennig. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cynllunio taith breswyl i Dresaith yn flynyddol. Maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn greadigol wrth drefnu trafnidiaeth ar gyfer y daith. Maent, er enghraifft, yn cyfrifo costau bwyd ar daenlen, cymharu costau gwahanol archfarchnadoedd, ac ysgrifennu asesiadau risg ar gyfer yr ymweliad.

Mae gan staff ymwybyddiaeth gadarn o egwyddorion y cyfnod sylfaen. Yn gyffredinol, maent yn cynllunio cydbwysedd addas rhwng gweithgareddau o dan arweiniad staff a chyfleoedd i ddisgyblion i weithio'n annibynnol yn yr ardaloedd dysgu. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn cyfoethogi'r ardaloedd dysgu yn fedrus gan annog disgyblion i feddwl, er enghraifft, wrth ofyn iddynt adeiladu castell o faint penodol yn yr ardal adeiladu. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob tro'n cynllunio'n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau disgyblion yn yr amgylchedd awyr agored.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i ddisgyblion ddysgu am iaith a diwylliant Cymru. Mae datblygiad effeithiol o'r Siarter Iaith yn sicrhau balchder disgyblion yn eu hiaith a'u gwlad. Ategir hyn yn llwyddiannus gan gynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddysgu am hanes a diwylliant Cymru, er enghraifft drwy'r gwaith prosiect ar Bwll Glo Penalltau ac wrth astudio gwaith o artistiaid lleol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffocws clir a roddir ar les pob disgybl. Mae'r staff yn rhoi cynhaliaeth effeithiol ar gyfer disgyblion yr 'Hafan'. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth emosiynol a chymdeithasol pwrpasol er mwyn iddynt elwa o holl brofiadau dysgu'r ysgol. Mae'r ddarpariaeth yn amrywio yn ôl anghenion unigryw disgyblion unigol ac yn cyfrannu'n dda iawn at sicrhau eu lles gorau posibl. Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i sicrhau bod disgyblion yn deall pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach.

Mae gweithdrefnau olrhain a monitro grymus yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion. Mae'n galluogi staff i adnabod a chefnogi unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai bregus a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r athrawon yn adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar ac yn cynnig rhaglenni ymyrraeth pwrpasol iddynt pan fo angen. Mae'r cynorthwywyr yn gweithio'n frwd o dan arweiniad y cyd-gysylltydd i weithredu'r ystod eang o raglenni ymyrraeth yn effeithiol. Mae hyn yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd o ansawdd uchel yn eu medrau llythrennedd a rhifedd wrth iddynt symud trwy'r ysgol.

Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun addysg unigol sy'n cynnwys targedau penodol a mesuradwy. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu'n gyson ar y cyd â'r disgyblion a'r rhieni. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau personol.

Mae'r ysgol yn darparu cynllun addysg bersonol a chymdeithasol gynhwysfawr sy'n meithrin agweddau fel parch, goddefgarwch a chydraddoldeb yn effeithiol i'r disgyblion. Mae hyn yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol. Mae'n trefnu ymwelwyr ac ymweliadau addysgol cyfoethog sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u cyfrifoldebau cymdeithasol. Er enghraifft, mae gweithgareddau am berthnasoedd iach a chamddefnyddio cyffuriau a sylweddau yn cael effaith gadarn ar allu disgyblion

i drafod, cydweithio a pharchu safbwyntiau ei gilydd ac eraill am faterion cymdeithasol pwysig. Mae’r trefniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd cyfoethog i’r disgyblion berfformio yn yr ysgol ac yn y gymuned leol, gan feithrin eu hunanhyder a’u gallu i gydweithio â’u cyfoedion yn dda. Mae enghreifftiau effeithiol o hyn yn cynnwys cystadlaethau chwaraeon, cymryd rhan yn yr ŵyl Ffiliffest a chanu carolau yn yr eglwys leol. Mae’r ysgol wedi llwyddo’n dda mewn nifer o gystadlaethau yn yr ardal leol ac ehangach trwy gyflwyno cyweithiau penodol am yr hanes lleol. Mae’r cyweithiau hyn yn cryfhau’r bartneriaeth ymhellach rhwng y cartref, yr ysgol a’r gymuned wrth i’r disgyblion ddatblygu eu medrau ymchwilio a chyflwyno. Mae’r ysgol yn rhoi cyfle i’r disgyblion ddatblygu eu medrau creadigol yn effeithiol eu hannog i gyflwyno gwybodaeth mewn amrywiol ffyrdd, er enghraifft wrth efelychu gwaith celf artisitiaid lleol.

Mae darpariaeth ar gyfer sicrhau bod y disgyblion yn falch o’r Gymraeg a’u diwylliant ac etifeddiaeth Gymreig yn gryfder yn yr ysgol. Mae’r profiadau maent yn eu cael o fewn y dosbarth a thu hwnt yn cyfoethogi eu dealltwriaeth o’u hunaniaeth ynghyd â pharchu amrywiaeth o fewn Cymru a gweddill y byd.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r pennaeth wedi creu gweledigaeth gref ac eglur ers sefydlu’r ysgol. Mae’r weledigaeth honno’n seiliedig ar sicrhau bod lles disgyblion a staff yn rhan ganolog o waith yr ysgol a bod ffocws cryf ar gyrraedd safonau uchel. Mae holl gymuned yr ysgol yn ymrwymo i’r pwyslais parhaol ar annog ‘parch, parodrwydd, perthyn’. Mae’r dirprwy a’r uwch dîm rheoli yn cefnogi’r pennaeth yn fedrus iawn. Golyga hyn fod staff, llywodraethwyr a’r disgyblion yn gosod disgwyliadau uchel i’w hunain a’i gilydd. Mae holl randdeiliaid yr ysgol yn cydweithio’n effeithiol i greu ethos gofalgar, gweithgar a pharchus.

Mae gweithdrefnau ar gyfer arfarnu safonau cyfredol yr ysgol yn gynhwysfawr, yn eang a thrylwyr. Mae’r adroddiad hunanarfarnu yn amlygu'r hyn sydd angen ei wella yn llwyddiannus ac mae wedi ei sefydlu’n gadarn ar ganfyddiadau gweithdrefn fonitro effeithiol. Mae llais y disgybl yn rhan annatod o’r gweithdrefnau hunanarfarnu. Mae arweinwyr yn parchu barn disgyblion ac yn eu hystyried o ddifri. Mae disgyblion yn cyfrannu i’r gweithdrefnau hunanarfarnu drwy gymryd rhan mewn teithiau dysgu gyda’r llywodraethwyr, trwy gynnal holiaduron disgyblion ac wrth arsylwi ar wersi. Mae hyn i gyd yn bwydo i’r gweithdrefnau ar gyfer gwella sy’n arwain at gynnal a chodi safonau yn yr ysgol.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen weithredol sy’n nodi’r camau i’w cymryd ar gyfer codi safonau. Mae'n nodi cyfrifoldebau staff a gofynion cyllidol yn glir ynghyd â meini prawf mesuradwy. Fodd bynnag, nodir gormod o dargedau sy’n golygu nad yw prif flaenoriaethau'r ysgol yn hollol glir i’r holl randdeiliaid neu’n ddigon miniog i fedru mesur cynnydd yn eu herbyn yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau effeithiol gyda nifer eang o bartneriaethau sy’n datblygu lles a safonau'r disgyblion. Mae arweinwyr yn sicrhau bod y staff yn cael cyfleoedd priodol i ddatblygu’n broffesiynol. Maent yn aml yn ymrwymo i waith ‘ysgol i ysgol’ er mwyn elwa ar arfer orau. Er enghraifft, bu’r ysgol yn rhan o gymuned

ddysgu broffesiynol yn cydweithio ag ysgol gynradd arall ar brosiect i wella medrau addysgu mathemateg. Bu'r ysgol yn arddangos arfer orau mewn mathemateg i glwstwr o ysgolion gwahanol mewn diwrnod dysgu proffesiynol. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar fedrau rhifedd disgyblion yn yr ysgol a'u gallu i gymhwyso'r medrau yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae cydweithio arbennig o effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd leol. Caiff y disgyblion hŷn nifer o gyfleoedd defnyddiol i ymweld â'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn eu cynorthwyo wrth drosglwyddo i'r cam nesaf o'u haddysg yn dda. Mae'r athrawon yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i arsylwi ar wersi blwyddyn 7, tra bod yr athrawon uwchradd yn arsylwi ar addysgu ym mlwyddyn 6.

Mae gan y llywodraethwyr wybodaeth gynhwysfawr a dealltwriaeth gadarn am berfformiad a gweithdrefnau'r ysgol. Maent yn gefnogol iawn ac yn cydweithio'n agos ac yn effeithiol gydag arweinwyr i sicrhau cyfeiriad strategol clir. Trwy ymweliadau cyson, a chyfarfodydd rheolaidd, maent yn herio'r ysgol yn llwyddiannus i wella a chynnal safonau.

Mae gan yr ysgol lefel briodol o staff ac adnoddau sydd o ansawdd uchel ac sy'n diwallu anghenion y cwricwlwm yn llawn. Defnyddir y cynorthwywyr yn effeithiol er mwyn diwallu anghenion unigolion a grwpiau amrywiol o ddisgyblion. Mae'r athrawon yn defnyddio'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu'n llwyddiannus. Mae'r pennaeth yn trefnu bod yr athrawon yn cael eu rhyddhau fesul pâr er mwyn manteisio ar y cyfle gorau i sicrhau cysondeb yn y cynllunio, asesu a chyd-safoni gwaith y dosbarthiadau.

Mae gan yr ysgol gynllun ar gyfer defnyddio'r grant datblygiad disgyblion, sy'n nodi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion difreintiedig. Mae'r ysgol yn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 11/12/2017